



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Cyhoeddywd:** Mawrth 2014

**Document reference:** 407A2013

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall unigol nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod yn adran 45 yn amlinellu'r drefn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, phan fo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yngl n â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Y tîm a ymgwymerodd â'r gwaith oedd Philip Jones, Sara Utley, Karen Lees a Malcolm Latham.

# Cynnwys

---

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda tymor byr clir ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, ac mae'r trefniadau i reoli'r cymorth a roddir yn y maes hwn yn sylfaen ar gyfer integreiddio'r gwaith ar draws y sectorau. Fodd bynnag, oherwydd nad oes cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn, cyfyngir ar y potensial i ganolbwyntio ar sut y defnyddir adnoddau er mwyn sicrhau cyfleoedd clir i wella diogelwch ac ansawdd rhagnodi ac i sicrhau bod y drefn yn un ddarbodus.

---

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	5
Ein prif ganfyddiadau	6
Argymhellion	9

## Adroddiad manwl

---

### **Trefniadau cynllunio strategol** 11

Er bod y trefniadau cynllunio wedi cynnig ffocws effeithiol ar gyfer anghenion gweithredol tymor byr, ychydig o gynnydd a fu o ran datblygu ymagwedd strategol hirdymor at ragnodi ym maes gofal sylfaenol, ac felly, nid yw'r cynlluniau cyflawni wedi'u targedu'n ddigonol at y meysydd hynny lle y gellid cael effaith fawr

---

### **Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd** 19

Mae atebolrwydd rheolwyr am reoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn glir ac mae'r drefniadaeth yn sylfaen ar gyfer rhagor o integreiddio ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ond mae cyfleoedd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn well er mwyn gwella ansawdd a chost rhagnodi ym maes gofal sylfaenol

---

### **Sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus** 30

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gymharol wael o ran nifer o ddangosyddion cenedlaethol allweddol, sy'n golygu bod cryn gyfle i sicrhau gwelliannau o ran costau ac ansawdd wrth ragnodi ym maes gofal sylfaenol

## Atodiadau

Crynodeb o'r arbedion posibl	42
Dadansoddiad cymharol o ragnodi ar sail penodau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn ôl bwrdd iechyd	44

---

---

Dadansoddiad o ddangosyddion rhagnodi	54
Lleihau'r adweithiau i gyffuriau	74
Rheoli Gwastraff Cyffuriau	76
Canfyddiadau ymarfer dyddiadur y tîm rhagnodi gofal sylfaenol	77
Negeseuon allweddol Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop i ragnodwyr ym maes gofal sylfaenol	87

---

# Adroddiad cryno

---

## Cyflwyniad

1. Mae'r GIG yng Nghymru yn rhoi tua 75 miliwn o bresgripsiynau gofal sylfaenol bob blwyddyn am feddyginiaeth sy'n costio tua £600 miliwn i gyd. Mae'r swm a wariwyd y pen o'r boblogaeth ar gyffuriau yn 2012 (£196) yn uwch nag yn Lloegr (£169) a'r Alban (£168). Hefyd, rhoddwyd nifer fwy o eitemau ar bresgripsiwn yng Nghymru yn 2012 nag yn yr un wlad arall yn y Deyrnas Unedig, sef 24 eitem y pen o'u cymharu â 15 yn 2002.
2. Yn gefndir i hyn, mae'r galw'n cynyddu. Mae cyfran fawr o oedolion dros eu 65 oed a'r gyfran honno'n tyfu. Erbyn 2020, mae disgwyl i'r niferoedd godi 24 y cant. Hefyd, mae 82 y cant o'r grŵp oedran hwn â chyflwr cronig sy'n arwain at gyfraddau rhagnodi uwch.
3. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn gwasanaethu ardal eang sy'n rhychwantu gogledd Cymru i gyd ac mae'n gwario oddeutu £116 miliwn ar gyffuriau gofal sylfaenol bob blwyddyn. Mae proffil demograffig y gogledd yn nodedig o ran bod y boblogaeth yma'n cynnwys cyfran uwch o bobl hŷn. Y Bwrdd Iechyd hwn sydd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf o ran gwario ar bresgripsiynau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac, o ran twf yn nifer yr eitemau, mae'r bwrdd fymryn o dan y cyfartaledd cenedlaethol.
4. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu ei wasanaethau'n gyfres o Grwpiau Rhaglenni Clinigol. Arweinir pob un o'r rhain gan gyfarwyddwr clinigol ac mae pob grŵp yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau o'r un math a ddarperir ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp Rhaglen Glinigol (GRhG) ar gyfer Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau (FfRhM) yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Trefnir gwasanaethau gofal sylfaenol yn dri thîm rhagnodi gofal sylfaenol sy'n gwasanaethu ardal y Bwrdd Iechyd, ac fe'u cynlluniwyd o'r cychwyn i sicrhau rhywfaint o integreiddio â gwasanaethau gofal eilaidd.
5. Mae'r archwiliad hwn yn edrych ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a'r nod oedd ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati mewn ffordd sy'n sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol?' Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, ystyriwyd:
  - a yw strategaeth a chynlluniau cyflawni rhagnodi gofal sylfaenol yn cynnal trefn ragnodi sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
  - a yw'r strwythurau, y trefniadau rheoli a'r adnoddau angenrheidiol sydd ar waith yn sicrhau trefn ragnodi sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
  - a yw data rhagnodi a chanlyniadau ariannol yn dangos bod dull y Bwrdd Iechyd yn arwain at ragnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol.

---

## Ein prif ganfyddiadau

- Ein prif gasgliad yw bod y Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda tymor byr clir ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, a bod trefniadau i reoli cymorth ar gyfer rhagnodi'n sylfaen ar gyfer integreiddio'r gwaith ar draws y sectorau. Fodd bynnag, oherwydd nad oes cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn, cyfyngir ar y potensial i ganolbwyntio ar sut y defnyddir adnoddau er mwyn sicrhau cyfleoedd clir i wella diogelwch ac ansawdd rhagnodi ac i sicrhau bod y drefn yn un ddarbodus.
- Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif ganfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn.

### Trefniadau cynllunio strategol

**Er bod y trefniadau cynllunio wedi cynnig ffocws effeithiol ar gyfer anghenion gweithredol tymor byr, ychydig o gynnydd a fu o ran datblygu ymagwedd strategol hirdymor at ragnodi ym maes gofal sylfaenol, ac felly, nid yw'r cynlluniau cyflawni wedi'u targedu'n ddigonol at y meysydd hynny lle y gellid cael effaith fawr.**

- Mae gan y Grŵp Rhaglen Glinigol (GRhG) gynllun gweithredol blynyddol sy'n rhestru'r prif weithgareddau ar gyfer y flwyddyn, wedi'u grwpio yn ôl pum prif thema strategol leol cynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd. Ers ein gwaith maes, mae'r GRhG wedi cyhoeddi cynllun cyffredinol ar gyfer y cyfnod 2013-16, ac mae'n cydnabod mai gwaith ar y gweill yw hwn.
- Mae ansicrwydd ynghylch aildrefnu gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd wedi llesteirio gallu'r GRhG i osod cyfeiriad strategol hirdymor clir.
- Sefydlwyd yn fuan beth oedd cyfrifoldebau'r staff yn y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ar ôl creu'r Bwrdd Iechyd yn 2009, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i helpu i sicrhau bod rhagnodi ar draws sectorau'n cael ei reoli'n well, er nad oes dim newid sylfaenol wedi bod yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
- Prif ffocws y tîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yw rhoi'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau a Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar waith. Fodd bynnag, nid yw mor amlwg sut mae gweithgareddau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyfeirio'n strategol.
- Er bod y trefniadau monitro presennol yn canolbwyntio ar berfformiad ariannol a dangosyddion gweithredol, mae angen gwneud rhagor i ddatblygu dulliau ehangach o fesur canlyniadau rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, ar lefel ardal leol, ardal a Bwrdd Iechyd gan grynhoi'r cynnwys Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- Mae amrywiaeth o enghreifftiau ar gael o randdeiliaid a chleifion yn ymgysylltu'n barhaus â phroses datblygu cyfeiriad gwasanaethau rheoli meddyginiaethau yn y dyfodol.

---

## Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

**Mae atebolrwydd rheolwyr am reoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn glir ac mae'r drefniadaeth yn sylfaen ar gyfer rhagor o integreiddio ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, er bod cyfleoedd i gryfhau sut y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i wella ansawdd a chost rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.**

- Mae'r atebolrwydd proffesiynol a rheolaethol am reoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn glir. Mae tri phrif dîm rhagnodi gofal sylfaenol, a'r rheini'n gweithio ar draws dwy sir, gan gysylltu â'r ysbytai cyffredinol dosbarth lleol a'r ysbytai cymuned. Mae'r timau'n gwasanaethu 14 ardal leol gofal sylfaenol ar draws dwy sir.
- Yn ystod ein gwaith, daeth yn glir bod meddygon teulu'n rhoi gwerth mawr ar y cymorth proffesiynol y mae'r timau rhagnodi gofal sylfaenol yn ei ddarparu, gan gynnwys lle mae hyn yn ymestyn i ddarparu addysg. Fodd bynnag, dywedodd staff y tîm rhagnodi, er y byddent yn hoffi gwneud hynny, nad ydynt mewn sefyllfa i roi rhagor o amser i'r math hwn o weithgarwch. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried sut y gellir canolbwyntio'n well ar gydweithio'n uniongyrchol â meddygon teulu a phractisau.
- Mae datblygu llyfr fformiwlâu ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn tynnu i ben, ac mae 75 y cant o'r meysydd allweddol wedi cael sylw mewn dwy flynedd. Mae datblygu'r llyfr fformiwlâu wedi bod yn dasg sylweddol, gan ddwyn ynghyd y trefniadau a oedd ar waith gynt mewn tair ymddiriedolaeth ar wahân. Er ei bod wedi cymryd cryn amser i gyrraedd y cam hwn, yn y sgil y gwaith, llwyddwyd i sicrhau ymgysylltu cadarnhaol ar draws pob maes therapiwtig.
- Prif swyddogaeth y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg yw cymeradwyo a monitro cyflwyno meddyginiaethau newydd a thriniaethau newydd i'r economi iechyd leol. Mae datblygiadau strategol a chynlluniau eraill sy'n berthnasol i rhagnodi'n cael eu rheoli drwy fforymau a phrosesau eraill y GRhG. Nifer fach o feddygon teulu sy'n gynrychiolwyr ac yn aelodau yn rhinwedd hynny'n unig. Felly, ein pryder ni yw y bydd yn anodd cynrychioli safbwynt y nifer fawr o feddygon teulu sy'n gweithio ar draws ardal eang. Fodd bynnag, ac ystyried maint a chymhlethdod trefniadaeth y Bwrdd Iechyd, rydym yn derbyn bod angen mynd ati mewn ffordd bragmatig.
- Ar hyn o bryd, mae 25 o Gytundebau Rhannu Gofal ar waith, ac mae lle i gael rhagor. Mae rhywfaint o waith da ar y gweill i sicrhau trefniadau monitro effeithiol ac i fynd ar drywydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chytundebau.
- Mae ein canfyddiadau'n awgrymu, er bod rhywfaint o amrywiadau rhwng y timau rhagnodi gofal sylfaenol o ran ffocws eu gwaith, mai tua'r un faint o amser a dreulir yn gweithio'n uniongyrchol gyda phractisau meddygon teulu ym mhob un o'r tri, sef oddeutu 30 y cant. Mae lle i ystyried sut y gellid canolbwyntio rhagor ar weithio'n uniongyrchol gyda phractisau meddygon teulu er mwyn sicrhau bod ansawdd y rhagnodi'n gwella eto, a bod rhai cyffuriau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy darbodus.

## Sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

**Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf o ran gwariant ar ragnodi yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae ei berfformiad yn gymharol wael o ran nifer o ddangosyddion cenedlaethol allweddol, sy'n golygu bod cryn gyfle i sicrhau gwelliannau o ran costau ac ansawdd wrth ragnodi ym maes gofal sylfaenol. Casglwyd hyn oherwydd:**

- Y Bwrdd Iechyd a sicrhodd y gostyngiad mwyaf o ran gwario ar ragnodi yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac, o ran twf yn nifer yr eitemau, mae fymryn o dan y cyfartaledd cenedlaethol.
- Yn y Bwrdd Iechyd hwn y gwelir un o'r cyfraddau uchaf o ragnodi gwrthfotigau yng Nghymru a bydd meddygon teulu'n rhoi cymharol lai ar bresgripsiwn o'r naw prif feddyginiaeth wrthfacteria sydd fwyaf priodol i drin yr heintiau cyffredin a welir ym maes gofal sylfaenol. Byddai o fudd mynd ati'n fwy penodol i weld ymhle mae'r defnydd yn uchel ac i addysgu rhagnodwyr gofal sylfaenol
- Mae perfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd o ran rhagnodi gwrthficrobau'n beth y bydd angen ei ystyried yn rhan o'r adolygiad ehangach o reoli heintiau a gynhelir gan arbenigwyr ac a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn sgil yr anawsterau a gafwyd gyda C. Difficile
- Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagnodi mwy o hypnotigion ac ancsiolytigion y 1,000 o gleifion nag y bydd unrhyw fwrdd Iechyd arall yng Nghymru.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.6 miliwn ar gyfarpar stoma (21 y cant o wariant Cymru) a £0.76 miliwn ar gyfarpar anymataliaeth (26 y cant o wariant Cymru) Y gost y pen o'r boblogaeth wedi'i phwysoli yw un o'r uchaf ar gyfer cyfarpar anymataliaeth, sy'n awgrymu'n gryf bod angen gwella sut y rheolir anymataliaeth ym maes gofal sylfaenol.
- O ran canllawiau NICE ar y fasedaid o gyffuriau 'nas argymhellir eu defnyddio wrth ragnodi ym maes gofal sylfaenol', gwelsom fod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gwario £82,000 ar y cyffuriau hyn, sy'n awgrymu bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhagnodi o ansawdd da a'i fod yn rhesymol.

## Sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

### Dangosyddion ariannol

- Gan y Bwrdd Iechyd y mae'r gyfradd ragnodi generig isaf yng Nghymru, a byddai gwella'r perfformiad hwn o'i gymharu â'r gorau yng Nghymru yn golygu y gellid arbed £692,000.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.1 miliwn ar orchuddion clwyfau a dyma'r bwrdd sy'n rhagnodi'r ganran isaf o orchuddion gwrthficrobaidd yng Nghymru, fel cydran o'r holl orchuddion clwyfau. Mae gwaith yr Is-bwyllgor Gorchuddion wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ei waith yn y maes hwn drwy gryfhau ymwybyddiaeth a newid arferion.

### Mater arall

- Ychydig o dystiolaeth sydd o ymagwedd gyson a chadarn at gyflwyno adroddiadau ynghylch adweithiau i gyffuriau a digwyddiadau yn sgil meddyginiaeth.



---

## Argymhellion

### Trefniadau cynllunio strategol

- A1 Datblygu a rhoi ar waith fframwaith strategol clir ar gyfer rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, gan nodi, ymhlith pethau eraill:
- gweledigaeth ac amcanion tymor canol i dymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau;
  - cyfeiriad er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau'n cael eu hintegreiddio'n well eto;
  - cyd-destun sy'n adlewyrchu gwybodaeth am amddifadedd, anghenion iechyd a materion iechyd cyhoeddus;
  - cysylltiadau ag amcanion strategol ehangach y Bwrdd Iechyd;
  - ymagwedd sy'n gyson â gwreiddu polisïau cenedlaethol ac sy'n gefn i'r polisïau hynny; a
  - dulliau mwy effeithiol o gael fferyllwyr cymunedol i ymwneud â chynlluniau Adolygu'r Defnydd o Gyffuriau.
- A2 Cryfhau eto'r cynlluniau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar gyfer y rhyngwyneb rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol er mwyn:
- atgyfnerthu mecanweithiau i helpu meddygon teulu wrth iddynt ymateb i argymhellion gofal eilaidd, gan gynnwys herio clinigwyr gofal eilaidd yn drwyadl;
  - cryfhau'r ymwybyddiaeth ymhlith clinigwyr gofal eilaidd o sut y gallai eu hargymhellion rhagnodi effeithio ar ofal sylfaenol o ran cost a materion ehangach;
  - sicrhau bod argymhellion rhagnodi'n cael eu monitro'n rheolaidd ac yn barhaus ar draws y rhyngwyneb, a lle bo hynny'n briodol, yn cael eu herio'n drwyadl;
  - gwella ansawdd cyfathrebu wrth ryddhau cleifion;
  - sicrhau bod materion sy'n ymwneud â rhagnodi a rheoli meddyginiaethau'n cael eu cynnwys o'r cychwyn wrth aildrefnu gwasanaethau, datblygu llwybrau gofal, a chyfleoedd tebyg eraill; a
  - dynodi cyfleoedd eraill i staff y GRhG FfRhM, a chlinigwyr mewn grwpiau eraill, weithio ar draws y rhyngwyneb i helpu i atgyfnerthu sut y rheolir rhagnodi a meddyginiaethau mewn ffordd effeithiol rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol, a mynd ar drywydd y cyfleoedd hynny.
- A3 Sicrhau bod amcanion mwy hirdymor yn cael eu blaenoriaethu'n glir o fewn rhaglenni gwaith blynyddol ar gyfer timau rheoli rhagnodi a meddyginiaethau gofal sylfaenol.
- A4 Datblygu rhagor ar ddangosfwrdd perfformiad y Bwrdd Iechyd i gynnwys y dangosyddion allweddol sy'n uniongyrchol berthnasol i berfformiad ym maes rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol.

---

### **Strwythurau, adnoddau a rheoli ar draws y rhyngwyneb â gofal eilaidd**

- A5 Egluro'r cyfrifoldebau corfforaethol ehangach am lywodraethu materion rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys ar lefel y Bwrdd.
- A6 Sicrhau bod adnoddau'r tîm rhagnodi gofal sylfaenol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy:
- ganolbwyntio rhagor ar y gwaith sy'n digwydd yn uniongyrchol gyda rhagnodwyr unigol a phractisau meddygon teulu ac felly; a
  - sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r gallu i gynnal rhagor o sesiynau addysg a sesiynau un-ac-un gyda meddygon teulu.
- A7 Cryfhau'r rheolaeth yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg a sicrhau bod penderfyniadau'r Grŵp, y tu hwnt i'r crynodebau presennol, yn cael eu lledaenu'n effeithiol.
- A8 Gwellu'r wybodaeth sydd ar gael i ragnodwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol drwy ddarparu'n allanol fersiwn ar-lein o'r llyfr fformiwlâu a mathau eraill o wybodaeth megis Cytundebau Rhannu Gofal.

### **Sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus**

- A9 Mynd i'r afael â phob un o'r cyfleoedd penodol y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn er mwyn gwella ansawdd a diogelwch rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a'i wneud yn fwy darbodus.
- A10 Adolygu'r rhesymau dros yr amrywiadau sylweddol yn y ffordd y bydd meddygon teulu'n rhagnodi cyffuriau gastro-berfeddol er mwyn helpu i ganolbwyntio'r ymdrechion ar wella ansawdd y rhagnodi hwn a'i wneud yn fwy darbodus.
- A11 Datblygu ffordd o gynyddu cyfraddau rhagnodi generig drwy fynd i'r afael â mwyafrif y practisau meddygon teulu sy'n rhagnodi o dan lefel y perfformiad gorau, sef 85 y cant.
- A12 Datblygu ffordd o wella adroddiadau am adweithiau i gyffuriau fel rhan o ddatblygu strategaeth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.

# Adroddiad manwl

---

## 1 Trefniadau cynllunio strategol

8. Er bod y trefniadau cynllunio wedi cynnig ffocws effeithiol ar gyfer anghenion gweithredol tymor byr, ychydig o gynnydd a fu o ran datblygu ymagwedd strategol hirdymor at ragnodi ym maes gofal sylfaenol, ac felly, nid yw'r cynlluniau cyflawni wedi'u targedu'n ddigonol at y meysydd hynny lle y gellid cael effaith fawr. Casglwyd hyn oherwydd:
- Mae gan y GRhG gynllun gweithredol blynyddol sy'n rhestru'r prif weithgareddau ar gyfer y flwyddyn, wedi'u grwpio yn ôl pum prif thema strategol leol cynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd. Ers ein gwaith maes, mae'r GRhG wedi cyhoeddi cynllun cyffredinol ar gyfer y cyfnod 2013-16, ac mae'n cydnabod mai gwaith ar y gweill yw hwn.
  - Mae ansicrwydd ynghylch aildrefnu gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd wedi llesteirio gallu'r GRhG i osod cyfeiriad strategol hirdymor clir.
  - Sefydlwyd yn fuan beth oedd cyfrifoldebau'r staff yn y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ar ôl creu'r Bwrdd Iechyd yn 2009, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i helpu i sicrhau bod ragnodi ar draws sectorau'n cael ei reoli'n well, er nad oes dim newid sylfaenol wedi bod yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
  - Prif ffocws y tîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yw rhoi'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau a Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar waith. Fodd bynnag, nid yw mor amlwg sut mae gweithgareddau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyfeirio'n strategol.
  - Er bod y trefniadau monitro presennol yn canolbwyntio ar berfformiad ariannol a dangosyddion gweithredol, mae angen gwneud rhagor i ddatblygu dulliau ehangach o fesur canlyniadau rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, ar lefel ardal leol, ardal a Bwrdd Iechyd gan grynhoi'r cynnwys Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
  - Mae amrywiaeth o enghreifftiau ar gael o randdeiliaid a chleifion yn ymgysylltu'n barhaus â phroses datblygu cyfeiriad gwasanaethau rheoli meddyginiaethau yn y dyfodol.

9. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n gefn i'r casgliadau hyn.

Gosod y cyfeiriad strategol		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ragnodi Gyfredol ar gyfer cyfnod penodol (er enghraifft, tair i bum mlynedd), a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i'w helpu i gyflawni ei nodau strategol ynghyd â chymau gweithredu wedi'u blaenoriaethu.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2010-15. Mae hwn yn gosod y cyd-destun, y weledigaeth, y themâu strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni amcanion y sefydliad rhwng 2012 a 2015. Mae'n cynnwys chwech amcan lefel-uchel i'r GRhG FfRhM y bydd angen rhoi sylw iddynt yn ystod y pum mlynedd. Ers ein gwaith maes, mae'r GRhG wedi cyhoeddi cynllun cyffredinol ar gyfer y cyfnod 2013-16. Cynllun gweithredol yw hwn yn ei hanfod ac fe gydnabyddir mai gwaith ar y gweill ydyw.</p>
<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ragnodi Gyfredol ar gyfer cyfnod penodol (er enghraifft, tair i bum mlynedd), a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i'w helpu i gyflawni ei nodau strategol â chymau gweithredu wedi'u blaenoriaethu.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r ansicrwydd ynghylch aildrefnu'r Bwrdd Iechyd wedi llesteirio gallu'r GRhG i bennu cyfeiriad strategol clir.</p> <p>Mae gan y GRhG FfRhM gynllun gweithredol blynyddol sy'n rhestru'r prif weithgareddau ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u grwpio yn ôl y pum thema strategol leol allweddol sydd yng nghynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd. Mae rhai gweithgareddau'n uniongyrchol berthnasol i ddatblygu rhagor ar wasanaethau'r GRhG FfRhM yng nghyd-destun gofal sylfaenol ac yn y gymuned, ac fe allai eraill ddylanwadu'n anuniongyrchol yn y meysydd hynny.</p> <p>Ar hyn o bryd, un o'r prif bethau y mae'r tri thîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn canolbwyntio arno yw rhoi'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd a'r Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar waith yn y tymor byr a'u monitro.</p>

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwyliedig

### Ar waith?

### Rhagor o wybodaeth

Dylid integreiddio dull strategol y Bwrdd lechyd o ragnodi ym maes gofal sylfaenol â gwaith rheoli meddyginiaethau gofal eilaidd. Yn niffyg strategaeth integredig, dylai'r strategaeth gofal sylfaenol gynnig dull sy'n gyson â'r hyn sy'n cyfateb iddo mewn gofal eilaidd.

✓/x

Rhai o'r blociau adeiladu posibl, megis llyfr fformiwlâu ar y cyd, Cytundebau Rhannu Gofal, a chynlluniau parhaus i symud adnoddau gweithlu'r GRhG i'r gymuned. Adeg paratoi'r adroddiad hwn, mae'r GRhG yn sylweddoli bod rhagor i'w wneud.

Mae'r broses datblygu trefniadaethol, er ei bod yn araf, wedi cyrraedd Haen 6, gan agor y drws ar fwy o gyfleoedd i newid.

Er na fydd fferyllwyr yn gweithio ar draws ffiniau sectorau ar hyn o bryd, dylai'r potensial i wneud hynny godi pan benodir pobl ar sail y disgrifiad swydd generig sydd wedi'i ddatblygu.

Dylai'r dull strategol gysylltu â nodau strategol eraill y Bwrdd lechyd, er enghraifft ei Strategaeth lechyd Cyhoeddus.

✓/x

Mae gwaith y GRhG FfRhM yn sail i lwyddiant nifer o flaenoriaethau'r Bwrdd lechyd megis gwella gofal yn y gymuned. Adlewyrchir hyn yn y cynllunio gweithredol blynyddol. Fodd bynnag, gan nad oes gweledigaeth strategol glir ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, mae'n anodd gweld, o safbwynt cymharol, faint o ffocws a blaenoriaeth sy'n cael eu rhoi i'r cysylltiadau hyn yn y GRhG.

Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael ag ailgynllunio'r gwasanaeth gan gynnwys datblygu a hyfforddi'r gweithlu.

✓/x

Mae'r GRhG wedi bod yn gweithio i ddatblygu a rhoi ar waith un cynllun swyddi integredig dros y 12 mis diwethaf ac mae'n cydnabod mai gwaith ar y gweill yw hyn a ddylai gyfrannu at well trefniadau gweithio.

## Gosod y cyfeiriad strategol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael ag ailgynllunio'r gwasanaeth gan gynnwys datblygu a hyfforddi'r gweithlu.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targed i ostwng nifer y staff yn gyffredinol bedwar y cant. Mae hyn yr un mor berthnasol i bob rhan o'r sefydliad. Mae'r GRhG yn gweld hyn yn wrthgynhyrchiol ac wedi dadlau y byddai o bosibl yn gallu arbed £10 miliwn drwy gadw'i staff ar y lefel bresennol. Gwneid hyn, yn rhannol, drwy ddefnyddio rhagor o ragnodwyr arbenigol yn y gymuned, a thrwy ddefnyddio rhagor ar fferyllwyr cymunedol a ragnodwyr anfeddygol. Er mwyn lliniaru rhai o'r risgiau hyn, mae'r GRhG yn ailgynllunio rolau fferyllwyr gofal eilaidd, er mwyn i'w gwaith hwythau hefyd gael ffocws cymunedol. Er bod modd gweld y targed i arbed ar gostau staff yn ymateb pragmatig i bwysau ariannol, mae yna berygl i hyn atal y GRhG rhag rhyddhau'r arbedion llawer mwy na'r arbedion hynny a sicrhau drwy leihau adnoddau staff.

Er bod y sefyllfa'n anodd, mae tîm rheoli'r GRhG FfRhM yn hyderus y gellid sicrhau arbedion. Fodd bynnag, fe allai'r diffyg ymagwedd strategol glir effeithio ar y gallu i wireddu'r holl arbedion hyn ac effeithio hefyd ar allu'r GRhG i gyflwyno dadl gadarn dros fuddsoddi mewn staff ychwanegol er mwyn cynyddu'r potensial i sicrhau arbedion.

Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael â gwaith ailgynllunio gwasanaethau gan gynnwys defnyddio contractau fferylliaeth gymunedol yn effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft gwasanaethau ychwanegol lleol.

✓/x

Mae datblygu gwasanaethau ychwanegol lleol yn nodwedd allweddol o waith timau ragnodi gofal sylfaenol gyda phractisau meddygon teulu a fferyllwyr cymunedol.

Y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd yw defnyddio'r adnodd hwn i helpu i symud y galw oddi wrth wasanaethau gofal eilaidd drwy hybu ffyrdd iach o fyw a lleihau afiechyd.

Bydd un o dri fferylllydd arweiniol yr ardaloedd lleol sy'n gyfrifol am reoli meddyginiaethau'n rheoli ac yn datblygu'r berthynas â fferyllwyr cymunedol mewn perthynas â threfniadau'r contractau. Er bod y berthynas yn dda ar y cyfan, bydd tensiynau'n codi yn sgil ymdrechion y Bwrdd Iechyd i sicrhau newid o ran arferion er mwyn helpu i wella ansawdd a sicrhau gwelliannau ariannol wrth weinyddu meddyginiaeth.

Barn meddygon teulu oedd nad oedd yr Adolygiadau o Ddefnydd Cyffuriau wedi bod o werth mawr.

## Gosod y cyfeiriad strategol

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â lleihau gwastraff, er enghraifft drwy hybu adolygiadau o feddyginiaethau gan feddygon teulu, rheoli presgripsiynau amlroddadwy a gweithio gyda fferyllwyr cymunedol.	✓/x	Mae dogfennaeth y Gwasanaethau Ychwanegol Lleol yn dweud bod y Bwrdd Iechyd yn anelu at adeiladu ar ymgyrch 2011-12 i gryfhau ymwybyddiaeth cleifion a'r cyhoedd am y gwastraff sylweddol sy'n digwydd o ran meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn, ochr yn ochr â chynlluniau ym maes gofal sylfaenol i wella trefniadau rheoli meddyginiaethau ac atal patrymau rhagnodi sy'n cynyddu gwastraff. Fel rhan o'r Gwasanaethau Ychwanegol Lleol, mae pob practis drwy'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cymryd rhan mewn adolygiadau o bresgripsiynau amlroddadwy. Mae hyn wedi helpu i gryfhau'r ymwybyddiaeth o hyn ar lefel practisau, a hynny o safbwynt ansawdd yn ogystal ag o safbwynt ariannol.

## Defnyddio tystiolaeth yn gefn i ddatblygu strategaeth

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Llywir y strategaeth gan ddadansoddiad eglur o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad rhagnodi.	✓/x	Mae'r GRhG FfRhM yn ystyried gwybodaeth am amddifadedd, anghenion iechyd, a materion iechyd cyhoeddus wrth wneud ei waith. Fodd bynnag, mae angen defnyddio'r wybodaeth hon yn awr i sicrhau ffocws eglurach ar gyfer cynllunio tymor canol i dymor hir.
Mae'r strategaeth yn cefnogi ac yn cydweddu â pholisïau cenedlaethol mewn perthynas â meddyginiaeth gan gynnwys canllawiau NICE a chanllawiau Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar effaith cyffuriau newydd a newid o ran sut y defnyddir cyffuriau presennol.	✓	Mae holl argymhellion canllawiau Arfarnu Technoleg NICE a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn cael eu nodi gan y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg a Grŵp Canllawiau NICE ac AWMSG (NAGG), a chymerir y camau angenrheidiol. Mae'r Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg yn ymdrin yn bennaf â meddyginiaethau a bydd y Grŵp Canllawiau yn ystyried yr holl gyngor arall a roddir gan NICE. Bydd prosesau cynllunio ariannol a chynllunio o fathau eraill yn ystyried goblygiadau'r canllawiau a gafwyd gan y ffynonellau hyn eisoes a'r rhai a ddaw yn y dyfodol.

## Defnyddio tystiolaeth yn gefn i ddatblygu strategaeth

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r strategaeth yn cydweddu â 1000 o Fywydau a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol.	✓/x	<p>Mae rhywfaint o gysylltiad â 1,000 o Fywydau yng nghynllun gweithredol cyffredinol y GRhG FfRhM er bod angen atgyfnerthu ei berthnasedd penodol i ragnodi ym maes gofal sylfaenol.</p> <p>Nid oes cysylltiad clir rhwng ymagwedd y GRhG at ragnodi ym maes gofal sylfaenol a'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol. Felly, dylid mynd ati'n glir yn awr i gynnwys hyn mewn unrhyw drefniant cynllunio newydd.</p>
Paratowyd y strategaeth gyda chyfraniad gan randdeiliaid allweddol megis meddygon teulu, meddygon ymgynghorol ysbytai a chynrychiolwyr cleifion	✓	<p>Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a chleifion yn digwydd mewn sawl ffordd. Defnyddir cyfarfodydd lleol yn brif gyfle i feithrin cysylltiadau o fewn y gymuned, er enghraifft, i ddatblygu gofal ychwanegol, gwaith gofal canolraddol gyda gwasanaethau cymdeithasol, cartrefi gofal a phartneriaid eraill. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd ar draws y Grwpiau Rhaglenni Clinigol ar faterion sy'n ymwneud â meddyginiaeth, ac mae sawl grŵp rheoli meddyginiaethau wedi'u sefydlu gyda Grwpiau Rhaglenni Clinigol eraill, gan gynnwys Iechyd Meddwl, Anaestheteg a Phoen Cronig, Gofal Canser a Gofal Lliniarol.</p> <p>Bydd fferyllwyr ar nifer o lefelau o fewn y GRhG yn rhoi cyflwyniadau'n rheolaidd i grwpiau yn y gymuned a byddant yn ymgysylltu'n allanol â fferyllwyr cymunedol, a thrwy gynrychiolwyr fferyllwyr cymunedol ar Grŵp Darbodusrwydd Clinigol y GRhG.</p>



## Dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiwyd yn gefn i ddatblygu'r strategaeth

Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol sy'n seiliedig ar y canlynol:	✓	Mae'r GRhG FfRhM yn adolygu ac yn rhagweld y gwariant ar bresgripsiynau ar sail fisol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r gwariant o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol fel ffordd uniongyrchol o fesur perfformiad o'i gymharu â'r sefyllfa hanesyddol, ac o adolygu rhagnodi'n rheolaidd mewn meysydd lle mae'r twf yn fawr.
Rhagnodi generig a defnyddio cyffuriau brand.	✓/x	Bydd prosesau tremio'r gorwel a chynllunio ariannol yn ystyried effaith bosibl presgripsiynau generig a chost defnyddio cyffuriau brand. Fodd bynnag, nid yw mynd i'r afael â'r effaith hon yn elfen glir o'r cynlluniau gweithredol.
Trefniadau wrth gefn ar gyfer datblygiadau heb eu cynllunio, er enghraifft, defnyddio gwrthfotigau drud os bydd rhywogaethau ymwrthol yn datblygu (gweler <a href="#">Atodiad 7</a> ).	✓/x	Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau'r gostyngiad mwyaf o ran gwariant ar bresgripsiynau yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sy'n awgrymu y gallai fod mewn lle da i sicrhau trefniadau ariannol wrth gefn.  Mae'r GRhG ar hyn o bryd yn defnyddio pecyn Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ar gyfer gwrthfotigau gyda phob practis meddygon teulu fel rhan o'r Gwasanaethau Ychwanegol Lleol yn 2013-14, gan dargedu quinolones, cephalosporins a co-amoxiclav, a gwrthfotigau'n gyffredinol. Mae gallu'r GRhG i ymateb i effeithiau cyfraddau brechu isel yn llai clir.

## Monitro canlyniadau a pherfformiad

### Ymarfer disgwyliedig

Ceir nodau strategol, canlyniadau ac amcanion CAMPUS eglur i fesur perfformiad.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Mae dangosfwrdd perfformiad DPA lefel uchel ar gael ar gyfer y GRhG FfRhM yn ei grynswth, ac roedd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio adeg gwneud ein gwaith maes. Mae'n cael ei sgorio ar system Glas, Coch, Melyn a Gwyrdd ac mae'n nodi'r targedau a'r cynnydd mewn pedwar maes:

- cyllid a thwf;
- effeithlonrwydd;
- ansawdd a boddhad cleifion; a
- staff

Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys gwybodaeth am feysydd megis perfformiad ariannol, amserau cwblhau, cwynion a digwyddiadau yn ogystal â gwybodaeth am gadw at drefniadau hyfforddi staff. Dylid ategu'r wybodaeth hon â gwybodaeth am berfformiad lleol ym maes rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, ar lefel ardal leol, ardal a Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Gwasanaethau Ychwanegol Lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae'r fframwaith ar gyfer monitro'r cyflawni'n cynnwys adrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau priodol.

✓

Mae gan y GRhG FfRhM ei Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad ei hun a Gr p Darbodusrwydd Clinigol. Mae'r grwpiau hyn yn gyfrifol am gyflawni targedau ariannol. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cael eu goruchwyllo gan Fwrdd y GRhG ac maent yn gweithio'n effeithiol. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Gyflawni a thrwy adolygu'r perfformiad gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Gofal Sylfaenol, Iechyd Cymunedol a Meddyliol. Bydd y Bwrdd yn cael diweddariadau drwy'r sianelau hyn. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn effeithiol a bydd materion megis perfformiad ariannol yn cael sylw mewn adroddiadau rheolaidd.

---

## 2 Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

10. Mae atebolrwydd rheolaethol dros reoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn glir ac mae'r drefniadaeth bresennol yn sylfaen ar gyfer rhagor o integreiddio ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd er bod cyfleoedd i gryfhau'r ffordd y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i wella ansawdd a chost rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Casglwyd hyn oherwydd:

- Mae'r atebolrwydd proffesiynol a rheolaethol am reoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn glir. Mae tri phrif dîm rhagnodi gofal sylfaenol, a'r rheini'n gweithio ar draws dwy sir, gan gysylltu â'r ysbytai cyffredinol dosbarth lleol a'r ysbytai cymuned. Mae'r timau'n gwasanaethu 14 ardal leol gofal sylfaenol ar draws dwy sir.
- Yn ystod ein gwaith, daeth yn glir bod meddygon teulu'n rhoi gwerth mawr ar y cymorth proffesiynol y mae'r timau rhagnodi gofal sylfaenol yn ei ddarparu, gan gynnwys lle mae hyn yn ymestyn i ddarparu addysg. Fodd bynnag, dywedodd staff y tîm rhagnodi, er y byddent yn hoffi gwneud hynny, nad ydynt mewn sefyllfa i roi rhagor o amser i'r math hwn o weithgarwch. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried sut y gellir canolbwyntio'n well ar gydweithio'n uniongyrchol â meddygon teulu a phractisau.
- Mae datblygu llyfr fformiwlâu ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn tynnu i ben, ac mae 75 y cant o'r meysydd allweddol wedi cael sylw mewn dwy flynedd. Mae datblygu'r llyfr fformiwlâu wedi bod yn dasg sylweddol, gan ddwyn ynghyd y trefniadau a oedd ar waith gynt mewn tair ymddiriedolaeth ar wahân. Er ei bod wedi cymryd cryn amser i gyrraedd y cam hwn, yn y sgil y gwaith, llwyddwyd i sicrhau ymgysylltu cadarnhaol ar draws pob maes therapiwtig.
- Prif swyddogaeth y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg yw cymeradwyo a monitro cyflwyno meddyginiaethau newydd a thriniaethau newydd i'r economi iechyd leol. Mae datblygiadau strategol a chynlluniau eraill sy'n berthnasol i ragnodi'n cael eu rheoli drwy fforymau a phrosesau eraill y GRhG. Nifer fach o feddygon teulu sy'n gynrychiolwyr ac yn aelodau yn rhinwedd hynny'n unig. Felly, ein pryder ni yw y bydd yn anodd cynrychioli safbwynt y nifer fawr o feddygon teulu sy'n gweithio ar draws ardal eang. Fodd bynnag, ac ystyried maint a chymhlethdod trefniadaeth y Bwrdd Iechyd, rydym yn derbyn bod angen mynd ati mewn ffordd pragmatig.
- Ar hyn o bryd, mae 25 o Gytundebau Rhannu Gofal ar waith, ac mae lle i gael rhagor. Mae rhywfaint o waith da ar y gweill i sicrhau trefniadau monitro effeithiol ac i fynd ar drywydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chytundebau.
- Mae ein canfyddiadau'n awgrymu, er bod rhywfaint o amrywiadau rhwng y timau rhagnodi gofal sylfaenol o ran ffocws eu gwaith, mai tua'r un faint o amser a dreulir yn gweithio'n uniongyrchol â phractisau meddygon teulu ym mhob un o'r tri, sef oddeutu 30 y cant. Mae lle i ystyried sut y gellid canolbwyntio rhagor ar weithio'n uniongyrchol gyda phractisau meddygon teulu er mwyn sicrhau bod

ansawdd y rhagnodi'n gwella eto, a bod rhai cyffuriau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy darbodus.

11. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad.

### Trefniadau rheoli

#### Ymarfer disgwylidig

Mae atebolrwydd proffesiynol a rheolaethol eglur dros holl brosesau rheoli meddyginiaethau a rhagnodi gan feddygon teulu. Dylai hyn gynnwys arweiniad gweithredol ar lefel y Bwrdd.

#### Ar waith?

✓/x

#### Rhagor o wybodaeth

Mae atebolrwydd proffesiynol a rheolaethol eglur dros reoli meddyginiaethau gofal sylfaenol o fewn y GRhG.

Mae'r GRhG yn cael ei arwain gan Bennaeth Staff ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae tri chyfarwyddwr clinigol yn atebol o safbwynt rheolaethol a phroffesiynol i'r Pennaeth Staff. Cyfarwyddwr Clinigol Ardal Leol y Gorllewin sy'n arwain rhagnodi gofal sylfaenol y GRhG hefyd. Bydd y tri arweinydd yr ardaloedd lleol sy'n gyfrifol am reoli meddyginiaethau'n adrodd i Gyfarwyddwr Clinigol Ardal Leol y Gorllewin.

Bydd y Pennaeth Staff yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymuned ac Iechyd Meddwl, sef arweinydd y Bwrdd Iechyd ym maes rheoli meddyginiaethau. Fodd bynnag, yn ystod ein gwaith, daeth yn amlwg bod llywodraethu rheoli meddyginiaeth yn digwydd ar sail ehangach na hyn, gan arwain at bryderon bod angen i'r cyfrifoldeb am y materion hyn fod yn eglurach ar lefel y Bwrdd.

### Cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol

#### Ymarfer disgwylidig

Mae cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol a swyddogaethau cynghori wedi'u diffinio'n eglur.

#### Ar waith?

✓

#### Rhagor o wybodaeth

Mae tri thîm rhagnodi gofal sylfaenol ar waith ar draws dwy sir, ac mae'r rhain yn cysylltu â'r ysbytai cyffredinol dosbarth a'r ysbytai cymuned. Mae'r timau'n gwasanaethu'r 14 ardal leol gofal sylfaenol ar draws y ddwy sir.

Deilliodd y trefniadau hyn o waith ymgynghori cynnar â'r staff yn 2009-10, ar ôl aildrefnu. Un o'r prif sbardunau oedd datblygu gwaith integredig rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Canlyniad hyn oedd strwythur sy'n darparu arweinydd ardal leol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwaith ysbytai ym mhob ardal.

## Cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol a rolau cynghori wedi'u diffinio'n glir.</p>	<p>✓</p>	<p>O fewn strwythur y GRhG drwyddo draw, mae ystod o rolau llywodraethu penodol wedi'i sefydlu sy'n gwasanaethu nifer o feysydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgôr Glas, Coch, Melyn, Gwyrdd</li> <li>• Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol</li> <li>• Diffyg cydymffurfio â'r llyfr fformiwlâu</li> <li>• NICE</li> <li>• Cyffuriau drud</li> <li>• Addysg a hyfforddiant</li> <li>• Datblygu llyfr fformiwlâu</li> <li>• Y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg</li> <li>• Polisiâu a gweithdrefnau</li> </ul>
<p>Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth eu monitro a chyfeirir adnoddau'r tîm rhagnodi tuag at feysydd blaenoriaeth a lle mae'n bosibl cael llawer o effaith.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae gwaith y tîm rhagnodi gyda phractisau meddygon teulu unigol yn cael ei flaenoriaethu ar sail perfformiad cymharol yng nghyswllt dangosyddion perfformiad a thargedau cenedlaethol a lleol.</p> <p>Yn gefn i wireddu'r rhaglen hon ac i roi ffocws i'r gwaith, bydd y timau rhagnodi'n dadansoddi'r data rhagnodi'n fanwl er mwyn targedu ymyriadau a gweld yng nghyswllt pa allgleifion a phractisau y gellid gwella'r perfformiad. At hynny, mae'r cyngor hefyd yn canolbwyntio ar faterion llywodraethu clinigol a materion llywodraethu eraill ehangach sy'n codi yn sgil y monitro.</p> <p>Penderfynir faint o waith y dylid ei wneud gyda phractisiau unigol yn rhannol ar sail i ba raddau y mae'r practisau a'r meddygon teulu unigol yn agored i ymyriadau. Mae hyn yn golygu bod gofyn i'r tîm feithrin perthynas weithio lwyddiannus drwy gysylltu'n rheolaidd â'r practisau a'u staff. Yn ystod ein gwaith, dywedodd meddygon teulu'n gyffredinol bod y berthynas weithio'n gadarnhaol iawn.</p>

## Cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth eu monitro a chyfeirir adnoddau'r tîm rhagnodi tuag at feysydd blaenoriaeth a lle mae'n bosibl cael llawer o effaith.	✓/x	<p>Er mwyn sicrhau cysondeb a bod adnoddau prin yn cael eu defnyddio gystal â phosibl, cynorthwyr cynghorwyr gan dîm gwybodaeth ganolog o'r GRhG FfRhM.</p> <p>Cynhaliwyd ymarfer dyddiadur ar y cymorth a roddir ar gyfer rhagnodi yn y Bwrdd Iechyd (<b>Atodiad 6</b>). Mae wedi dangos bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>tua 30 y cant o waith pob tîm rhagnodi yn yr ardaloedd lleol yn cael ei wneud yn uniongyrchol gyda phractisau meddygon teulu; a'r</li> <li>rhan fwyaf o'r amser cynghori am ragnodi'n cael ei threulio'n darparu cymorth o fath ehangach</li> </ul> <p>cymharol ychydig o amser yn cael ei dreulio'n gweithio yn y gymuned neu gyda'r sector aciwt.</p>
Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth eu monitro a chyfeirir adnoddau'r tîm rhagnodi tuag at feysydd blaenoriaeth a lle mae'n bosibl cael llawer o effaith.	✓/x	<p>Wrth iddo ddatblygu ei strategaeth ar gyfer y tymor canol i'r hirdymor ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried a yw'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio gystal ag y gellid eu defnyddio.</p>
Mae systemau gwybodaeth ar waith i gefnogi gwaith cyngor am ragnodi	✓/x	<p>Mae timau rhagnodi'r ardaloedd lleol yn gallu mynd at y llyfr fformiwlâu drwy dull electronig. Byddai modd gwella'r berchnogaeth ar lyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd (gweler isod) petai ar gael ar lein yn rhwydd i bawb sy'n rhagnodi ac i'r cyhoedd. I ddefnyddwyr, bydd hyn yn haws pan fydd y ddwy system TG ar-lein sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y Byrddau Iechyd (EMIS Web and Vision) ar gael yng Ngogledd Cymru</p>
Mae rhaglen addysg ar waith.	✓/x	<p>Yn ystod ein gwaith, daeth yn amlwg bod meddygon teulu'n rhoi gwerth mawr ar y cymorth proffesiynol y mae timau rhagnodi'r ardaloedd lleol yn ei ddarparu ar eu cyfer, gan gynnwys lle bydd hynny'n ymestyn i ddarparu addysg. Bydd y timau rhagnodi'n cynnal digwyddiadau addysgol chwarterol i feddygon teulu er mwyn helpu i gryfhau'r ymwybyddiaeth o faterion allweddol yn y maes. Roedd consensws cryf ymhlith meddygon teulu a'r timau rhagnodi y byddai rhagor o'r sesiynau hyn o fudd.</p> <p>Fodd bynnag, dywedodd staff y tîm rhagnodi nad oeddent mewn sefyllfa i neilltuo rhagor o amser i'r math hwn o weithgarwch.</p>

## Cymorth rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae rhaglen addysg ar waith.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Bydd cynghorwyr rhagnodi hefyd yn cynnal cyfarfodydd un-ac-un gyda meddygon teulu a byddent yn hoffi treulio rhagor o amser yn darparu'r math hwn o gymorth am ei fod yn ffordd dda o ddefnyddio'u hamser ac yn gwella'r perfformiad.

Unwaith eto, byddai'n anodd i gynghorwyr rhagnodi neilltuo rhagor o amser ar gyfer y math hwn o weithgarwch ac ystyried sut y blaenoriaethir y gwaith ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried sut y gellid canolbwyntio rhagor ar weithio'n uniongyrchol gyda meddygon teulu a phractisau.

## Llyfr Fformiwlâu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Ymarfer disgwyliedig

Mae sefydlu llyfr fformiwlâu lleol yn adnodd pwysig i helpu i ddarparu gwybodaeth er mwyn i fwrdd iechyd allu dewis cyffuriau'n ddiogel a darbodus. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen datblygu'r llyfr fformiwlâu drwy ymgysylltu â'r clinigwyr perthnasol. Hefyd, mae angen ei hyrwyddo mor eang â phosibl ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, a dylid sicrhau ei fod ar gael yn haws, gan gynnwys ar ffurf electronig. Dylai'r llyfr fformiwlâu hwn nodi'r canlynol drwy ddefnyddio system Coch, Melyn a Gwyrdd neu broses debyg:

- Meddyginiaethau addas ar eu cyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.
- Meddyginiaethau a roddir yn y lle cyntaf mewn ysbyty/sefydliad arbenigol ond sy'n addas ar gyfer gofal a rennir â gofal sylfaenol o dan gytundeb rhannu gofal y bwrdd iechyd.
- Meddyg ymgynghorol mewn ysbyty neu arbenigwr sy'n gyfrifol am ragnodi.
- Nid yw'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg yn argymhell defnyddio meddyginiaethu heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Yn yr achosion hyn, mae angen cyngor gan gynghorydd rhagnodi a chofnodi'r rhesymau dros ragnodi.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Mae datblygu llyfr fformiwlâu ar gyfer y Bwrdd Iechyd drwyddo draw'n tynnu i ben, ac mae 75 y cant o'r meysydd allweddol wedi cael sylw mewn dwy flynedd. Mae'n dilyn fformat cymeradwy ar gyfer llyfrau fformiwlâu ac yn dilyn yr un strwythur penodau ag sydd yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain. Caiff cyffuriau eu categoreiddio ar sail system Glas, Coch, Melyn, Gwyrdd, a dibynnu ar ba mor briodol yw'r cyffur i'w roi ar bresgripsiwn mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae datblygu'r llyfr fformiwlâu wedi bod yn waith sylweddol, gan ddwyn ynghyd y gwahanol drefniadau a oedd ar waith gynt ar draws y tair ymddiriedolaeth. Er ei bod wedi cymryd cryn amser i gyrraedd y cam hwn, mae'r gwaith wedi arwain at ymgysylltu cadarnhaol ar draws pob maes therapiwtig.

Mae'r GRhG yn cynnal gwefan ragnodi sy'n cynnwys dogfennau perthnasol seiliedig ar dystiolaeth, ac mae hon ar gael i bob contractiwr gofal sylfaenol.

## Llyfr Fformiwlâu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Caiff cydymffurfiaeth â'r llyfr fformiwlâu ei monitro a rhoddir camau ar waith os gwelir bod diffyg cydymffurfio.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae nifer o enghreifftiau wedi'u cofnodi lle nad yw clinigwyr gofal eilaidd yn cydymffurfio â'r canllawiau sydd ar waith. Er enghraifft, arbenigwyr yn argymhell i feddygon teulu roi cyffuriau ar bresgripsiwn sydd heb eu cynnwys yn y llyfr fformiwlâu a diffyg cydymffurfio â'r Cytundebau Rhannu Gofal.</p> <p>Er mwyn ymateb i hyn, mae'r GRhG FfRhM wedi rhoi cyfarwyddyd i staff ei dîm gwybodaeth canolog fonitro a dilyn hynt digwyddiadau o'r fath drwy ddefnyddio data o ffynonellau sydd ar gael yn rheolaidd. Mae system cymorth rhagnodi ScriptSwitch hefyd yn cael ei defnyddio i helpu i weld enghreifftiau o ragnodi y tu allan i'r llyfr fformiwlâu.</p>
<p>Mae cydymffurfio â'r Llyfr Fformiwlâu yn cael ei fonitro a chymerir camau os gwelir bod diffyg cydymffurfio.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r tîm gwybodaeth yn mynd ar drywydd rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r clinigwyr gofal eilaidd. Maent yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r tri thîm rhagnodi gofal sylfaenol yn y cyswllt hwn. Er bod y dull hwn yn ei fabandod adeg ein hadolygiad, os dilynir y drefn hon yn rheolaidd yn y dyfodol, bydd yn cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i reoli diffyg cydymffurfio.</p>



## Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Ymarfer disgwyliedig

Mae gwaith grwpiau cyffuriau a therapiwteg lleol yn elfen allweddol o sicrhau bod cyffuriau newydd a mathau newydd o driniaethau'n cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus. Er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol, dylai'r aelodaeth gynrychioli'r holl randdeiliaid, gan gynnwys aelodau lleyg.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Prif rôl y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg yw cymeradwyo a monitro cyflwyno meddyginiaethau newydd a mathau newydd o driniaethau i'r economi iechyd leol. Mae datblygiadau strategol a chynlluniau eraill sy'n berthnasol i ragnodi'n cael eu rheoli drwy fforymau a phrosesau eraill y GRhG.

Mae gan y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg 31 o aelodau, sy'n adlewyrchu'r gwahanol grwpiau proffesiynol. Fe wnaeth y grŵp ymdrech yn fuan i sefydlu aelodaeth feddygol mewn ffordd a oedd yn cyfateb yn glos i haenau'r Bwrdd Iechyd. Ni lwyddwyd i fwrw ymlaen â hyn oherwydd byddai wedi arwain at grŵp mawr iawn a fyddai'n anymarferol mewn gwirionedd.

Creffir ar faterion rhagnodi gofal sylfaenol drwy gyfrwng y canlynol:

- dau AMD – sydd hefyd yn feddygon teulu;
- tri aelod sy'n feddygon teulu; a
- Phennaeth Staff y GRhG a'r Cyfarwyddwr Clinigol Diogelwch Cleifion – mae'r ddau'n fferyllwyr, yn gyfrifol am faterion rhagnodi gofal sylfaenol ac yn atebol am gyllideb rhagnodi gofal sylfaenol.

**Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Ymarfer disgwyliedig**

**Ar y gweill?**

**Rhagor o wybodaeth**

Mae gwaith y grŵp cyffuriau a therapiwteg lleol yn elfen allweddol o sicrhau bod cyffuriau newydd a mathau newydd o driniaethau'n cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus. Er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol, dylai'r aelodaeth gynrychioli'r holl randdeiliaid, gan gynnwys aelodau lleyg.

✓/x

Ein pryder ni yw oherwydd mai nifer fach o feddygon teulu a gynrychiolir sy'n aelodau yn rhinwedd hynny'n unig, y bydd yn anodd cynrychioli safbwynt nifer fawr o feddygon teulu ar draws ardal eang. Fodd bynnag, ac ystyried maint a chymhlethdod trefniadaeth y Bwrdd Iechyd, rydym yn derbyn bod angen mynd ati mewn ffordd bragmatig i graffu ar faterion rhagnodi gofal sylfaenol yn y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg.

Mae dau o'r tri arweinydd ardal leol sy'n gyfrifol am reoli meddyginiaethau ac sy'n aelodau o'r Grŵp yn cynrychioli holl agweddau rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol.

Er i bod o bosibl yn ddymunol cynnwys pob un o'r tri arweinydd ardal leol, roedd y penderfyniad i beidio â gwneud hynny'n benderfyniad pragmatig hefyd, er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth yn gytbwys.

Mae gan y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg nifer o is-grwpiau sy'n darparu cymorth hanfodol ar gyfer ei waith.

Mae gan y grwpiau hyn ystod o gynrychiolwyr o'r maes gofal sylfaenol ac eilaidd, sy'n rhoi rhagor o gyfleoedd i feddygon teulu a chlinigwyr ddylanwadu ar benderfyniadau rhagnodi. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- Cyfarwydddebau Grwpiau Cleifion a Pholisi Meddyginiaethau;
- Rhestr glas, coch, melyn gwyrdd;
- Diogelwch Meddyginiaethau;
- Gorchuddion; a
- Rhwydwaith Gwybodaeth Leol Cyffuriau Rheoledig.

Yn ystod ein cyfweiliadau, clywyd y farn fod colli is-grwpiau rhagnodi'r meddygon teulu ar ôl aildrefnu wedi golygu i ryw raddau bod llai o ganolbwytio ar faterion rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Gallai'r trefniadau gofal sylfaenol lleol newydd gynnig ffordd arall o ganolbwytio ar y materion hyn, er y bydd angen amser iddynt aeddfedu'n llawn.

## Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymarfer disgwyliedig	Ar y gweill?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r aelodau'n cynnwys ystod eang o arbenigeddau meddygol.	✓	Mae'r rhan fwyaf o'r arbenigeddau rhagnodi drud yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg.
Mae'r blaengynllun yn pennu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn.	✓/x	Mae gan y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg rywfaint o eitemau sefydlog ar ei agenda ym mhob cyfarfod. Rydym yn cydnabod bod datblygiadau strategol a chynlluniau eraill sy'n ymwneud â rhagnodi'n cael sylw mewn fforymau eraill.
Mae'r Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg yn defnyddio'r ystod lawn o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio'r broses benderfynu.	✓/x	<p>Mae papurau cyfarfodydd y Grŵp yn gynhwysfawr ac mae'r dystiolaeth yn dda. At hynny, rhaid gwneud pob cais am gyflwyno cyffuriau newydd ar y ffurflen briodol er mwyn eu hystyried.</p> <p>Fodd bynnag, wrth inni arsylwi ar bwyllgorau gwelsof fod llawer o amser yn cael ei dreulio'n trafod cais am ddefnyddio cyffur newydd, a bod hwnnw wedyn wedi cael ei wrthod oherwydd nad oedd y ffurflen berthnasol wedi'i llenwi. Yn ogystal â bod hyn yn drafferthus i'r meddyg ymgynghorol a'r pwyllgor, collwyd cryn dipyn o amser gwerthfawr. Er ein bod yn sylweddoli mai un cyfarfod penodol oedd hwn, roedd yn awgrymu y gellid gwneud rhagor i reoli agendâu, dogfennau ac amser yn fwy effeithiol.</p>
Mae gan y Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg broses gadarn, systematig a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau fel rhan o'i fframwaith llywodraethu cyffredinol.	✓/x	<p>Mae gan y Grŵp nifer fawr o aelodau wedi'u gwasgaru dros ardal eang. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trosglwyddo i sawl lleoliad drwy ddefnyddio cyfleusterau cynadledda fideo. Yn ystod y cyfarfod yr arsylwyd arno, nid oedd bob tro'n glir a oedd penderfyniad wedi'i wneud neu beidio.</p> <p>Mae cynadledda fideo'n ffordd bragmatig o sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd, yn enwedig ag ystyried daearyddiaeth y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'n golygu bod angen rheoli cyfarfodydd yn dda iawn er mwyn goresgyn anfanteision y dechnoleg hon.</p>

## Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymarfer disgwyliedig	Ar y gweill?	Rhagor o wybodaeth
Mae pob penderfyniad rhagnodi yn ystyried effaith nwyddau ar golled mewn gofal eilaidd ar ofal sylfaenol.	✓	<p>Pan ddaw cais gerbron y Grŵp, bydd angen asesu'r effaith ariannol ar yr economi iechyd yn ei chrynswth ac ni fyddai'r grŵp o blaid cyflwyno nwyddau ar golled i faes gofal eilaidd.</p> <p>Ambell waith, bydd y Grŵp hefyd yn manteisio ar gost ratach cyffuriau mewn gofal eilaidd e.e. rhagnodi a chyflenwi Clexane a chyffuriau atal imiwnedd.</p> <p>Mae cyflenwi'r ysbytai hefyd yn canolbwyntio ar osgoi fformiwla'u/cyffuriau 'fi hefyd' drudfawr megis 'mups' omeprazole neu escitalopram neu quetiapine gwasgarol, heb fod angen clinigol amlwg amdanynt.</p>

## Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Caiff penderfyniadau'r Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg eu cyfleu'n brydlon.	✓/x	Lledaenir gwybodaeth drwy'r cofnodion a gedwir yng nghyfarfodydd y Grŵp a thrwy gylchlythyron. Nid yw effeithiolrwydd y mecanweithiau hyn wedi cael ei asesu ac, oherwydd y diffyg eglurdeb ym mhroses benderfynu cyfarfodydd y Grŵp, mae hyn yn peri risgiau ychwanegol.

## Gweithio ar y rhyngwyneb

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Y mater pwysicaf sy'n effeithio ar faterion rheoli meddyginiaethau ar draws y rhyngwyneb yw cyfathrebu gwael ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng rhagnodwyr. Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi neu brotocolau gweithio, sy'n sicrhau bod meddyginiaethau a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.	✓/x	<p>Ar hyn o bryd, mae 25 Cytundeb Rhannu Gofal ar waith.</p> <p>O fewn y Cytundebau Rhannu Gofal hyn, mae cyfrifoldebau rhagnodwyr ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael eu nodi'n glir ac fe wahaniaethir yn glir rhyngddynt.</p> <p>Gan fod cynifer o gytundebau, mae angen i feddygon teulu a meddygon ymgynghorol fod yn ymwybodol o ystod eang iawn o wybodaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy anodd oherwydd nad yw'r wybodaeth ar gael o un ffynhonnell electronig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd roi sylw i hyn am ei fod yn ddull pwysig o sicrhau cydymffurfio â Chytundebau Rhannu Gofal.</p>

## Gweithio ar y rhyngwyneb

### Ymarfer disgwyliedig

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cysoni meddyginiaethau ar waith lle bydd y cyffuriau sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn wrth dderbyn cleifion yn cyfateb i'r rheini sy'n cael eu rhoi ar ôl iddynt gael eu derbyn.

### Ar waith?

✓/x

### Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dileu'r ddwy swydd fferylllydd rhyngwyneb ac mae'r gwaith ar y rhyngwyneb yn cael ei wneud bellach gan dimau gofal eilaidd a gofal sylfaenol. Er bod hyn wedi bod yn ffordd bragmatig o ymateb i'r sefyllfa ariannol bresennol, gall olygu ei bod hi'n fwy anodd i staff fferyllol a staff cymorth rhagnodi gyfathrebu ar draws y rhyngwyneb, oherwydd bod tuedd i bobl weithio ar eu hynys eu hunain. Fel y dywedwyd eisoes, mae ystod o faterion y mae angen eu rheoli a dylai'r Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg ystyried sut mae'n canolbwyntio adnoddau staff ar y rhyngwyneb a hefyd, sut mae'n eu gosod mewn sefyllfa ddigon cadarn i allu herio argymhellion rhagnodi arbenigol.

## Gweithio ar y rhyngwyneb

### Ymarfer disgwyliedig

Anfonir llythyrau rhyddhau o'r ysbyty at feddygon teulu'n brydlon, gan gynnwys gwybodaeth eglur a pherthnasol i helpu gyda phenderfyniadau rhagnodi mewn gofal sylfaenol. Dylai'r llythyr:

- nodi bod cyflwr y claf yn sefydlog;
- cynnwys y rhesymau dros unrhyw newid yn y meddyginiaethau;
- nodi meddyginiaethau a argymhellir wrth eu henw generig a'u dosbarth therapiwtig;
- rhoi'r rheswm dros argymhell meddyginiaethau brand; a
- rhoi'r rheswm dros argymhell cyffuriau heb eu trwyddedu neu heb eu cymeradwyo.

### Ar waith?

x

### Rhagor o wybodaeth

Gall rhagnodi arbenigol fod yn wahanol i ragnodi mewn gofal sylfaenol, gan fod gofynion penodol o ran monitro a deall risg. Ar hyn o bryd, mae meddygon teulu'n poeni am y diffyg gwybodaeth mewn llythyrau rhyddhau a hefyd am faint mae'n ei gymryd i'r llythyrau hyn gyrraedd ac maent yn anfodlon ar y sefyllfa. Yn ein cyfweiliadau ac yn ein gwaith gyda'r grwpiau ffocws, gwelwyd bod rhai meddygon teulu'n poeni am ansawdd gwael y wybodaeth y bydd cleifion yn ei chael am eu meddyginiaethau pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gan gynnwys y sgil-ffeithiau posibl. Mae rhai cleifion yn cael eu rhyddhau gyda chyffuriau nad ydynt yn y llyfr fformiwlâu a chyda chyffuriau ar y raddfa goch. Yn ogystal â bod hyn yn ffordd wael o reoli cleifion, fe all hefyd arwain at dyndra rhwng meddygon teulu ac arbenigwyr. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn er bod angen cryfhau'r cymorth i feddygon teulu eto er mwyn iddynt allu herio'r argymhellion rhagnodi a gânt gan ofal eilaidd.

---

### 3 Cyflawni rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

12. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf o ran gwariant ar ragnodi yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae ei berfformiad yn gymharol wael o ran nifer o ddangosyddion cenedlaethol allweddol, sy'n golygu bod cryn gyfle i sicrhau gwelliannau o ran costau ac ansawdd wrth ragnodi ym maes gofal sylfaenol. Casglwyd hyn oherwydd:

- Y Bwrdd Iechyd a sicrhodd y gostyngiad mwyaf o ran gwario ar ragnodi yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac o ran twf yn nifer yr eitemau, mae fymryn o dan y cyfartaledd cenedlaethol.
- Yn y Bwrdd Iechyd hwn y gwelir un o'r cyfraddau uchaf o ragnodi gwrthfotigau yng Nghymru a bydd meddygon teulu'n rhoi cymharol lai ar bresgripsiwn o'r naw prif feddyginiaeth wrthfacteria sydd fwyaf priodol i drin yr heintiau cyffredin a welir mewn gofal sylfaenol. Byddai o fudd mynd ati'n fwy penodol i weld ymhle mae'r defnydd yn uchel ac i addysgu presgripsiynwyr gofal sylfaenol.
- Mae perfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd o ran rhagnodi gwrthficrobau'n beth y bydd angen ei ystyried yn rhan o'r adolygiad ehangach o reoli heintiau a gynhelir gan arbenigwyr ac a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn sgil yr anawsterau a gafwyd gyda C. Difficile
- Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagnodi mwy o hypnotigion ac ancsiolytigion y 1,000 o gleifion nag y bydd unrhyw fwrdd Iechyd arall yng Nghymru.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.6 miliwn ar gyfarpar stoma (21 y cant o wariant Cymru) a £0.76 miliwn ar gyfarpar anymataliaeth (26 y cant o wariant Cymru). Y gost y pen o'r boblogaeth wedi'i phwysoli yw un o'r uchaf yng Nghymru ar gyfer cyfarpar anymataliaeth, sy'n awgrymu'n gryf bod hyn yn faes lle gellid gwella rheolaeth anymataliaeth mewn gofal sylfaenol.
- O ran canllawiau NICE ar y fasedaidd o gyffuriau 'nas argymhellir eu defnyddio wrth ragnodi ym maes gofal sylfaenol', gwelsom fod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gwario £82,000 ar y cyffuriau hyn, sy'n awgrymu bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhagnodi o ansawdd da a'i fod yn rhesymol.

#### Dangosyddion ariannol

- Gan y Bwrdd Iechyd y mae'r gyfradd ragnodi generig isaf yng Nghymru, a byddai gwella'r perfformiad hwn o'i gymharu â'r gorau yng Nghymru yn golygu y gellid arbed £692,000.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.1 miliwn ar orchuddion clwyfau a dyma'r bwrdd sy'n rhagnodi'r ganran isaf o orchuddion gwrthficrobaidd yng Nghymru, fel cydran o'r holl orchuddion clwyfau. Mae gwaith yr Is-bwyllgor Gorchuddion wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ei waith yn y maes hwn drwy gryfhau ymwybyddiaeth a newid arferion.

## Mater arall

- Ychydig o dystiolaeth sydd o ymagwedd gyson a chadarn at gyflwyno adroddiadau ynghylch adweithiau i gyffuriau a digwyddiadau yn sgil meddyginiaeth.

### 13. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad.

Perfformiad ariannol		
Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Dylai'r broses gyllidebu fod yn brif sbardun i wella perfformiad yn barhaus ac mae hyn yn golygu bod gofyn gosod cyllidebau mewn ffordd resymol sy'n agored ac yn dryloyw.	✓	<p>Mae cyllideb rhagnodi gyffredinol y GRhG FfRhM yn cael ei gosod ar sail yr adnoddau sydd ar gael ac ar sail lefel yr arbedion a ddisgwylir.</p> <p>Ni ddefnyddir cyllidebau rhagnodi ar gyfer practisau unigol, ond pennir gwariant cyffredinol yn ôl gwerth ASTRO.</p> <p>Roedd rhai BILLau blaenorol yn symud ar wahanol gyflymder tuag at ddefnyddio gwerthoedd ASTRO.</p> <p>Pennir lefel arbedion targed i'r practisau ac fe'u cynorthwyir gan gynghorwyr rhagnodi a'u hannog drwy'r Gwasanaethau Ychwanegol Lleol i gyrraedd y targed hwnnw.</p> <p>Mae'r dull hwn yn cael ei weld yn fwy derbyniol na gosod cyllidebau i bractisau unigol.</p> <p>Mae swyddogion y GRhG ja chyfrifydd y GRhG yn cyfrannu at broses gosod y gyllideb. Mae'r GRhG yn tynnu sylw at bwysau costau'r flwyddyn i ddod ac mae'n cyfarfod â'r Uwch Dîm Cyllid a'r Prif Weithredwr i drafod cyllidebau agoriadol a lefel y CRES y disgwylir ei chyflawni.</p> <p>Adeg yr archwiliad, rhagwelwyd mai'r amrywiad er gwaeth ddiwedd y flwyddyn fyddai £2.0 miliwn ym mis 7, sy'n well na'r £4.75 miliwn a ragwelwyd ym mis 5 ac mae'n cynnwys pwysau cydnabyddedig ar gostau 2012-13.</p> <p>Maes rhagnodi meddygon teulu'r gyllideb sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o orwario'r GRhG. Mae'r data'n dangos bod yr eitemau rhagnodi a weinyddwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2012 3.9 y cant yn uwch nag yn 2011; fodd bynnag, roedd y gost gyffredinol i'r Bwrdd lechyd ar gyfer y cyfnod hwn 4.1 y cant yn is.</p>

---

## Perfformiad ariannol

### Ymarfer disgwyliedig

### Ar waith?

### Rhagor o wybodaeth

Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel tîm a chamau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith os nad yw'r targedau'n cael eu cyrraedd.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn rhagweld gwariant ar ragnodi fel rhan o broses y datganiadau monitro rheolaidd misol. Bydd dadansoddi manwl yn digwydd bob mis ar ragnodi a gweinyddu gofal iechyd sylfaenol. Mae hyn cynnwys dadansoddi lleol a chymharu â gweddill Cymru, gan adolygu'r data sydd ar gael a rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a'r tu hwnt.

Roedd gwaith y Bwrdd Iechyd ei hun yn dangos, ar sail y boblogaeth a oedd wedi'i chofrestru'n lleol â meddygon teulu o 708,459 (ar 31 Mawrth 2013), y gost y pen oedd £169 ym mis Mawrth 2012, ac roedd hyn wedi gostwng i £158 y pen erbyn mis Mawrth 2013.

Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel y Bwrdd.



Nid oes tystiolaeth glir bod gwybodaeth ariannol am ragnodi gofal sylfaenol yn cael ei monitro'n benodol ar lefel y bwrdd.



## Cyfanswm y gwariant ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae'r rhesymau dros wariant cyfredol y Bwrdd Iechyd ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn hysbys ac wedi'u deall.

### Ar waith?



### Rhagor o wybodaeth

Gwariodd y Bwrdd Iechyd £117 miliwn ar gyffuriau gofal sylfaenol rhwng mis Medi 2011 a mis Awst 2012. Y Bwrdd Iechyd hwn sydd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf o ran gwario ar ragnodi yn y flwyddyn ddiwethaf, ac, o ran twf eitemau, mae fymryn o dan y cyfartaledd cenedlaethol.

Mae **Atodiad 2** yn rhannu'r gwariant yn ôl 15 pennawd penodau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, wedi'i addasu yn ôl unedau rhagnodi'r boblogaeth. Mae hynny'n ystyried faint o bobl h'n sydd yn y boblogaeth honno. Ar ôl addasu'r gwariant ar gyfer y boblogaeth, mae gwariant y Bwrdd Iechyd yn is na'r cyfartaledd.

Mae'r GRhG FfRhM yn parhau i drafod yn fewnol lefel y gyllideb y mae wedi'i chael ers i'r dyraniad penodol ar gyfer rhagnodi gan Lywodraeth Cymru ddod i ben. Mae'r drafodaeth hon wedi'i chynnal ar gefndir o gynnydd parhaus yn y galw am feddyginiaethau, a thwf yn nifer yr eitemau (er bod y costau wedi gostwng), ac nid yw gwaith ataliol ym maes gofal sylfaenol i bob golwg wedi effeithio ar y camau hyn. Ychydig o dystiolaeth sydd o drosglwyddo arian o ofal eilaidd i ofal sylfaenol i gefnogi unrhyw symudiad tuag at ddarparu gwasanaethau yn y gymuned

14. Mae'r tablau isod yn crynhoi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud o'i gymharu ag ystod o ddangosyddion rhagnodi a adolygwyd yn rhan o'r archwiliad. Darperir cymariaethau ychwanegol yn y graffiau a welir yn **Atodiad 3** o'r Adroddiad.

## Dangosyddion rhagnodi effeithiol

### Ymarfer disgwyliedig

Gall y Bwrdd lechyd arbed rhagor drwy sicrhau bod rhagnodi cyffredinol gystal â'r hyn a gyflawnir gan y chwarter gorau o bractisau meddygon teulu.

Mae lefel rhagnodi generig y Bwrdd yn uchel o'i chymharu â pherfformiad y chwarter gorau o feddygon teulu (85 y cant), sy'n adlewyrchu rhagnodi o ansawdd uchel, gyda llai o gangymeriadau a chostau is.

Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn disgrifio nifer o gyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi oherwydd nad oes iddynt fawr o werth clinigol, am eu bod wedi'u disodli gan gyffuriau mwy effeithiol neu am fod iddynt sgil-effeithiau sylweddol.

Ni chanfu NICE unrhyw dystiolaeth gref o blaid effeithiolrwydd rhagnodi glucosamine ac felly nid yw wedi cael ei argymhell i'w roi ar bresgripsiwn gan y GIG. Petai meddygon teulu'n rhoi'r gorau i glucosamine, gallai'r Bwrdd lechyd arbed arian.

### Rhagor o wybodaeth

Rydym yn amcangyfrif y gallai'r Bwrdd lechyd arbed £2.3 miliwn arall bob blwyddyn heb effeithio ar ofal cleifion.

Ac ystyried cyffuriau brand rhatach a'r practisau heb feddygon teulu sy'n cyfrannu at gyfraddau rhagnodi cyffredinol ym maes gofal sylfaenol, petai modd i bob practis meddygon teulu wneud cystal â'r chwarter sy'n perfformio orau, byddai hyn yn rhyddhau arbedion posibl gwerth £692,000 (**Atodiad 3: Arddangosyn 12**).

Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu y gallai'r Bwrdd lechyd ryddhau arbedion sylweddol drwy sicrhau bod systemau rhagnodi'n gadarn, bod meddygon teulu'n cael cymorth i newid cyffuriau, a bod practisau sy'n perfformio'n wael yn cael eu targedu i gael cymorth ychwanegol.

Bydd gofyn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sy'n angenrheidiol i helpu practisau i newid pethau, ar gael.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd lechyd yn gwario £511,000 ar y paratodau hyn, sef chwarter y gwariant yng Nghymru (gweler **Atodiad 3: Arddangosyn 13**). Mae hyn yn awgrymu bod cyfle i'r Bwrdd lechyd sicrhau ansawdd ac arbedion petai'n gwella yn y maes hwn.

Ar hyn o bryd, meddygon teulu ardal y Bwrdd lechyd sy'n rhagnodi cyfran sylweddol o'r glucosamine sy'n dal i gael ei roi ar bresgripsiwn yng Nghymru ac, er bod cost hyn yn gymharol isel, sef bron £15,000 (**Atodiad 3: Arddangosyn 14**), mae'n awgrymu bod lle i wella o ran ansawdd ac o safbwynt ariannol drwy ragnodi'n fwy rhesymol.

## Dangosyddion rhagnodi effeithiol

### Ymarfer disgwyliedig

Mae NICE wedi nodi nifer o gyffuriau na chânt eu hargymell i'w defnyddio'n rheolaidd. Mae perfformiad yn erbyn y fasgedaid hon<sup>1</sup> o gyffuriau yn y categori hwn yn adlewyrchu arfer rhagnodi effeithiol a diogel o fewn gofal sylfaenol. Rydym wedi defnyddio basgedaid o gyffuriau sy'n cynnwys cyffuriau nas argymhellir eu defnyddio'n rheolaidd. ([Arddangosyn 15](#)).

### Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £82,000 ar y cyffuriau hyn sy'n tua 20 y cant o gyfanswm gwariant Cymru ([Atodiad 3: Arddangosyn 15](#)).

## Rhagnodi cyfarpar rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd a chyfarpar anymataliaeth

### Ymarfer disgwyliedig

#### Gorchuddion gwrthficrobaidd

Er bod gorchuddion gwrthficrobaidd yn cael eu defnyddio'n helaeth, mae'r dystiolaeth o blaid eu defnyddio mewn gofal sylfaenol yn brin a'i hansawdd yn wael. Ac ystyried yr holl fathau o orchuddion sydd ar gael, nid oes cyngor penodol mewn canllawiau cenedlaethol, a chan gydnabod y cyfyngiadau ariannol, mae llyfrau fformiwlâu lleol yn cynnig ffordd o resymoli'r dewis o orchuddion.

### Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.1 miliwn ar orchuddion clwyfau ac mae wedi sicrhau'r ganran isaf o ragnodi gorchuddion gwrthficrobaidd yng Nghymru ([Atodiad 3: Arddangosyn 16](#)). Mae gwaith yr Is-bwyllgor Gorchuddion wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ei waith yn y maes hwn drwy gryfhau ymwybyddiaeth a newid arferion.

#### Atchwanegiadau bwyd

Asesodd NICE y sylfaen dystiolaeth o blaid atchwanegiadau maeth i'w llyncu. Nes bod rhagor o dystiolaeth ar gael, casgliad yr adolygiad oedd y dylid rheoli'r bobl hynny sy'n colli pwysau yn sgil afiechyd drwy eu cyfeirio at ddietydd, neu gan staff sy'n defnyddio protocolau a luniwyd gan ddietyddwyr, gan atgyfeirio yn ôl yr angen. Awgrymai tystiolaeth un astudiaeth o arlwyo mewn ysbytai gan Swyddfa Archwilio Cymru fod atchwanegiadau maeth yn cael eu rheoli'n wael yn y gymuned; mae'r costau, a lefelau'r gwastraff, yn uchel.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £691,000 ar atchwanegiadau bwyd a chost hynny ar gyfartaledd yw £40.05 yr eitem, sef un o'r isaf yng Nghymru ([Atodiad 3: Arddangosyn 17](#)). Wrth ddadansoddi'r gwariant ar benodau Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ([Atodiad 2](#)) gwelir defnydd uwch na'r cyfartaledd yn y maes hwn, sy'n awgrymu y gallai hwn fod yn faes lle y gellid gwella ansawdd y rhagnodi a'i wneud yn fwy darbodus.

<sup>1</sup> Roedd y fasgedaid hon yn cynnwys Aliskiren, Cilostazol, Roflumilast, Linagliptin, Paricalcitol, ac Hyaluronic Acid (Sodium).

## Rhagnodi cyfarpar rheoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd a chyfarpar anymataliaeth

### Ymarfer disgwylidig

#### Cyfarpar anymataliaeth a stoma

Wrth gynnal archwiliad cenedlaethol o anymataliaeth yn 2010 gwelwyd bod mwyafrif y gwasanaethau ymataliaeth wedi'u hintegreiddio'n wael ar draws lleoliadau gofal aciwt, meddygol, llawfeddygol, sylfaenol, cartrefi gofal a chymunedol, gan arwain at ofal anghyson i gleifion a gofalwyr. Mewn gofal sylfaenol, meddyg teulu neu nyrs sydd fel rheol yn rhoi presgripsiynau ar gyfer cyfarpar anymataliaeth a stoma i gleifion. Yna, gweinyddir y presgripsiwn gan un o'r canlynol: contractwr sy'n gweinyddu cyfarpar, contractwr fferyllol neu feddyg sy'n gweinyddu.

### Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.6 miliwn ([Atodiad 3: Arddangosyn 18](#)) ar gyfarpar stoma (21 y cant o wariant Cymru) a £0.76 miliwn ar gyfarpar anymataliaeth (26 y cant o wariant Cymru). Y gost fesul poblogaeth wedi'i phwysoli yw un o'r uchaf yng Nghymru ar gyfer cyfarpar anymataliaeth, sy'n awgrymu'n gryf bod hwn yn faes lle y gellid gwella'r trefniadau i reoli anymataliaeth mewn gofal sylfaenol.

## Perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2011-12

### Ymarfer disgwylidig

#### Rhagnodi Atalyddion ACE

Meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd i drin pwysedd gwaed uchel yw atalyddion ACE (atalyddion ensym trawsnewid angiotensin). Mae Canllawiau Clinigol NICE (CG34) yn dweud bod budd atalyddion ACE a gwrthweithyddion derbyn angiotensin-II yn cydberthyn yn agos â'i gilydd ond oherwydd y gwahaniaethau yn y gost, y dylid cychwyn gydag atalyddion ACE. Mae rhagnodi atalyddion ACE wedi cael ei ddefnyddio yn yr archwiliad hwn i fesur ansawdd y rhagnodi a'r arbedion posibl sydd ar gael o hyd

### Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, gan y Bwrdd Iechyd y mae'r perfformiad gwaethaf o'i gymharu â'r dangosydd hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 19](#)). Petai'r Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud cystal â'r chwarter gorau, byddai hyn yn arbed £197,000 ([Atodiad 3: Arddangosyn 20](#)).

#### Atalyddion Pwmp Proton (PPIs)

Defnyddir PPIs i drin clefyd gwrthlif sefnigol, dyspepsia neu wlsrau gastrig: er bod pryderon yn cael eu mynegi bellach yngl n â diogelwch rhagnodi PPIs am gyfnod hir, dywed argymhellion NICE y dylid defnyddio'r PPI rhataf.

Byddai defnyddio rhagor o PPIs rhad i'w caffael (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 21](#)) yn golygu y gallai'r Bwrdd Iechyd arbed arian a phetai'r perfformiad gystal â'r chwarter gorau, arbedid £153,000 ([Atodiad 3: Arddangosyn 22](#)).

## Perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Cyffuriau gwrthlidiol heb steroidau (NSAIDs)

Meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio'n helaeth i liniaru poen, lleihau llid a thwymyn yw NSAIDs. Ceir tystiolaeth helaeth dros gyfyngu ar ragnodi NSAIDs yn enwedig ar gyfer pobl h n. Os oes rhaid rhagnodi NSAIDs, er mwyn lleihau risg, derbynnir mai ibuprofen a naproxen yw'r dewis cyntaf.

#### Rhagnodi Statins rhad i'w caffael

Mae canllawiau cyfredol NICE yn hyrwyddo defnyddio o statins rhad i'w caffael yn driniaeth linell gyntaf i'r rhan fwyaf o bobl â chlefyd fasgwlaidd atheroslerotig sefydledig, pobl â diabetes ac eraill â risg uchel o glefyd cardiofasgwlaidd. Gwelwyd mai dyma'r ymyrraeth fwyaf cost-effeithiol.

#### Rhagnodi inswlin hir-effaith ar gyfer diabetes math 2

Mae canllawiau NICE ar reoli diabetes math 2 yn argymhell mai inswlin isoffan dynol (NPH) yw'r dewis a ffeirir pan fydd angen therapi inswlin. Mae analogau inswlin hir-effaith yn fuddiol i rai cleifion, a gellid ei ystyried ar gyfer categorïau penodol o bobl. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o bobl â diabetes math 2, nid yw analogau inswlin hir-effaith yn cynnig unrhyw fantais sylweddol dros inswlin NPH dynol, ac maent yn ddrutach o lawer.

#### Rhagnodi Opioidau i liniaru poen

Mae opioidau wedi chwarae eu rhan ers tro'n rheoli poen aciwt yn dilyn trawma (gan gynnwys llawdriniaeth), a rheoli poen sy'n gysylltiedig â salwch angheuol.

### Rhagor o wybodaeth

Yn gyffredinol, gan y Bwrdd Iechyd y mae un o'r lefelau perfformiad gorau yng Nghymru er bod lefel y rhagnodi'n dal yn is na lefel y targed cenedlaethol (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 23](#)).

Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu y gellid gwneud rhagor i wella ansawdd y rhagnodi a gallai hefyd arbed £69,000 petai'r perfformiad gystal â chwarter gorau y practisau meddygon teulu ([Atodiad 3: Arddangosyn 24](#)).

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau oddeutu 94 y cant o'i gymharu â tharged o 95 y cant (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 25](#)). Petai'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cystal â pherfformiad chwarter gorau'r meddygon teulu, byddai hynny'n arbed £509,000 yn ychwanegol ([Atodiad 3: Arddangosyn 26](#)).

Ar hyn o bryd, mae cyfradd ragnodi'r Bwrdd Iechyd yn uchel ar gyfer inswlin hir-effaith a phetai'r lefelau'n cael eu gostwng at lefel y chwarter gorau, arbedid £46,000 ([Atodiad 3: Arddangosyn 27 a 28](#)).

Ar hyn o bryd, y Bwrdd Iechyd sy'n rhagnodi'r lefel uchaf o forffin fel canran o eitemau opioidau cryf yng Nghymru (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 29](#)). Er bod y perfformiad hwn yn dda mae'n dal yn is na'r targed. Petai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni'r targed hwn, gallai ryddhau arbedion gwerth £197,000 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 30](#)).

---

## Perfformiad o'i gymharu â dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwylidig

#### Rhagnodi gwrthfacterol – y naw prif eitem

Mae canllawiau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yn nodi'r protocol triniaethau a'r gwrthfotigau mwyaf priodol ar gyfer heintiau cyffredin a welir mewn gofal sylfaenol. Mae'r naw prif feddyginiaeth gwrthfacterol yn darparu digon o ddiogelwch i drin heintiau'r llwybr resibiradol uchaf ac isaf, heintiau'r llwybr wrinol a heintiau cyffredin y croen.

Mae defnyddio gwrthfotigau generig syml ac osgoi gwrthfotigau sbectrwm eang (er enghraifft co-amoxiclav, quinolones a cephalosporins) yn lleihau risg bacteria ymwrthol yn awr ac i'r dyfodol.

### Rhagor o wybodaeth

Cyfradd rhagnodi'r naw prif gyffur gwrthfacterol yw'r isaf yng Nghymru (**Atodiad 3: Arddangosyn 31**) a hefyd, yma y gwelir ail gyfradd uchaf o ragnodi gwrthfacterol. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella rhagnodi rhesymol yn y maes hwn.

#### Rhagnodi gwrthfacterol - y gyfradd ragnodi gyffredinol

Mae'r Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yng Nghymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnyddio meddyginiaethau gwrthficrobaidd yn ddoeth.

Ar hyn o bryd, gan y Bwrdd Iechyd y mae un o'r cyfraddau rhagnodi gwrthfotigau uchaf yng Nghymru (**Atodiad 3: Arddangosyn 32**). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynlluniau tymor byr a thymor canol i wella rhagnodi rhesymol yn y maes hwn. Yn sgil yr anawsterau a welwyd yn y Bwrdd Iechyd yng nghyswllt C. Difficile ers ein gwaith maes, bydd angen ystyried gwrthficrobau wrth i'r arbenigwyr gynnal yr adolygiad ehangach a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd o reoli heintiau. Deallwn fod rhaglen addysg wedi'i thargedu a phrosesu gwell ar waith mewn practisau, gan gynnwys ar gyfer cephalosporins (gweler isod).

## Perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Defnyddio Gwrthfotigau sbectrwm eang

Mae cysylltiad rhwng defnyddio quinolone ac achosion o ddolur rhydd sy'n gysylltiedig â C. Difficile, felly dylid cyfyngu ei ddefnyddio i achosion penodol er mwyn lleihau'r risg bosibl o ymwrthedd microbaidd.

Amcangyfrifwyd mai cost gyfartalog achos o C. Difficile yw £4,007 sy'n golygu y gallai methu â rheoli rhagnodi quinolone arwain at ganlyniadau i'r system gyfan a'r rheini o bosibl yn ganlyniadau hirdymor.

Gwrthfotigau sbectrwm eang yw cephalosporins sy'n cael eu defnyddio ar gyfer trin septisemia, niwmonia, llid yr ymennydd, heintiau pibell y bustl, peritonitis a heintiau'r llwybr wrinol.

Dylid cyfyngu'r defnydd o wrthfotigau sbectrwm eang i achosion penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd.

#### Rhagnodi Dosulepin

Gwrth-iselydd yw dosulepin, sydd wedi arfer cael ei ddefnyddio pan fo angen cyffur gwrth-bryder neu dawelydd; fodd bynnag, ffin denau o ddiogelwch sydd rhwng y dos therapiwtig uchaf a dos a allai fod yn angheuol. Y canllaw cyfredol gan NICE yw peidio â dechrau, na newid i ragnodi dosulepin am fod y dystiolaeth o blaid ei oddefolrwydd o'i gymharu â gwrthiselyddion eraill yn cael ei gwrthbwysu gan y risg gynyddol i'r galon a chan y ffaith bod gorddos ohono mor wenwynig.

### Rhagor o wybodaeth

Mae lefel rhagnodi cephalosporins gan feddygon teulu yn y Bwrdd Iechyd yn destun pryder ac mae angen cymryd camau ar frys gan mai yn y Bwrdd Iechyd y gwelir y lefel uchaf o bell ffordd sylweddol ([Atodiad 3: Arddangosyn 33](#)).

Mae lefel rhagnodi quinolones gan feddygon teulu yn y Bwrdd Iechyd yn destun pryder hefyd. ([Atodiad 3: Arddangosyn 34](#)). Yn y Bwrdd Iechyd y gwelir y lefel uchaf o ragnodi'r cyffur hwn, fel canran o gyffuriau gwrthfacteria yng Nghymru.

Yn y Bwrdd Iechyd y gwelir y lefel uchaf o ragnodi Dosulepin yng Nghymru, sy'n awgrymu bod angen gwneud llawer mwy yn y maes hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 35](#)).

## Perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

### Ymarfer disgwyliedig

#### Rhagnodi Hypnotigion ac ancsiolytigion

Mynegwyd pryderon yngl n â'r lefel uchel o ragnodi hypnotigion ac ancsiolytigion yng Nghymru. Cydnabyddir y gallai peth o'r rhagnodi fod yn amhriodol, gan gyfrannu at broblem dibyniaeth a chelu iselder. Hefyd, mae canlyniadau i'r system gyfan yn sgil costau ychwanegol darparu gwasanaethau dibyniaeth er mwyn rheoli'r cleifion sy'n mynd yn ddibynnol arnynt.

### Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagnodi mwy o hypnotigion ac ancsiolytigion fesul 1000 claf nag y mae unrhyw fwrdd iechyd arall (**Atodiad 3: Arddangosyn 36**). Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud llawer mwy i gyfeirio adnoddau er mwyn sicrhau rhagnodi rhesymol mewn ystod o feysydd.

## Monitro Adweithiau i Gyffuriau

### Ymarfer disgwyliedig

Caiff Cynllun y Cerdyn Melyn ei drefnu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol, a chaiff ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cyhoedd am sgil-ffeithiau posibl neu adweithiau i feddyginiaeth. Mae'r cynllun hwn yn allweddol i helpu'r MHRA fonitro diogelwch y meddyginiaethau a'r brechlynnau sydd ar y farchnad.

Amlygodd gwaith Comisiwn Archwilio 1998 lefelau isel o gofnodi adweithiau i gyffuriau yng Nghymru ac nid yw'r tueddiad wedi gwella. Mae'r AWMSG wedi cytuno y byddai trefn gofnodi'r Cerdyn Melyn yn cael ei defnyddio'n gymharydd lleol ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae Canolfan Cerdyn Melyn Cymru wedi datblygu rhaglen addysg sydd ar gael i feddygon teulu a byrddau iechyd.

### Ar waith?

x

### Rhagor o wybodaeth

Mae adroddiadau Monitro Adweithiau'r Bwrdd Iechyd wedi dirywio, gan adlewyrchu'r sefyllfa drwy Gymru lle mae'r sefyllfa'n gwaethygu. Mae maint y dirywiad hwn yn amlwg yn bwysig (**Atodiad 3: Arddangosyn 37 a 38**). Mae **Atodiad 3: Arddangosyn 39** yn dangos ffynhonnell adroddiadau am Adweithiau yn y gymuned, fesul bwrdd iechyd.

Fel rhan o'i hymagwedd strategol at wella rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o wella adroddiadau am Adweithiau i Gyffuriau. Mae **Atodiad 4: Arddangosyn 40** yn dangos arferion da o ran hyrwyddo a gwella adroddiadau.



## Gwastraffu cyffuriau

Ymarfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu'n costio £50 miliwn bob blwyddyn.	x	Gan dybio bod y lefelau'n gyson drwy Gymru, amcangyfrifwn mai cost y cyffuriau a wastreffir yw £11 million. Petai'r Bwrdd Iechyd yn gallu gostwng hyn 50 y cant gellid arbed £5.5 miliwn ( <b>Atodiad 5: Arddangosyn 41</b> ).
Mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth am lefel y meddyginiaethau sy'n cael eu gwastraffu, er enghraifft maent wedi cynnal archwiliadau.	✓/x	Sylweddolir bod gwastraff yn fater pwysig, ond nid oes ffigurau lleol manwl ar gael am faint y gwastraff. Mae'r GRhG wedi datblygu fframwaith sy'n nodi'r prif feysydd lle mae angen targedu'r gwastraff. Ar ôl inni wneud gwaith maes, dechreuwyd archwilio gwastraff meddyginiaethau gyda fferyllfeydd cymunedol er mwyn cael data a fyddai'n golygu bod mynd i'r afael â hyn drwy dargedu meysydd penodol.. Rhoddwyd arf electronig ar brawf yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i fesur gwastraff mewn fferyllfeydd cymunedol. Yn genedlaethol, mae Bwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau'n ystyried hyrwyddo defnyddio'n helaethach y dulliau rheoli gwastraff a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd.
Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i leihau gwastraff, er enghraifft drwy greu cymhelliant i reoli meddyginiaethau wrth ddechrau eu gweinyddu.	✓/x	Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud gan ddefnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol er mwyn helpu i ostwng gwastraff, e.e. rhagnodi amlroddadwy, adolygiadau o sut y defnyddir meddyginiaethau: ychydig o dystiolaeth sydd o ddylanwad y gwaith hwn.
Mae ymgyrchoedd lleol i dynnu sylw at wastraffu meddyginiaethau ar waith ac mae eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro.	✓/x	Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adeiladu ar sail ymgyrch 2011-12 er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth cleifion a'r cyhoedd o faint o feddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn sy'n cael eu gwastraffu. Nid yw'n glir sut y bydd effaith y cynlluniau hyn yn cael ei fonitro a' i hadolygu na sut yr adroddir ynghylch hyn.
Cefnogi meddygon teulu i wella'r trefniadau rhagnodi amlroddadwy.	✓	Mae pob practis yn cymryd rhan mewn adolygiadau o ragnodi amlroddadwy, fel rhan o'r cynllun Gwasanaethau Ychwanegol Lleol yn ystod 2012-13. Mae pob practis wedi galluogi naill ai rheolwr eu practis neu glerc/derbynnydd rhagnodi arweiniol i fynd i weithdy gyda chydweithwyr a elwir yn <i>Arferion Da ym maes Rhagnodi Amlroddadwy</i> .

# Atodiad 1

---

## Crynodeb o'r arbedion posibl

Yn yr atodiad hwn, ceir crynodeb o'r arbedion posibl, wedi'i seilio ar berfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag ystod o ddangosyddion rhagnodi (gweler [Atodiad 3](#)). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r arbedion.

Dangosydd	Y sail a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn i gyfrifo'r arbedion
Cyfraddau rhagnodi generig	<p>Mae'r chwarter gorau o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn sicrhau lefelau o 85 y cant o ragnodi generig. Mae rhai cyffuriau brand (fel Ventolin a Zapain) sy'n cael eu rhagnodi'n helaeth yn rhatach ar hyn o bryd na mathau generig cyfatebol. A dibynnu ar yr amrywiaeth o achosion y maent yn eu trin, gallai practisau meddygon teulu fod â mwy neu lai o botensial i greu arbedion yn y maes hwn.</p> <p>I leihau effaith amrywiadau, datblygwyd basgedaid o gyffuriau sy'n cael eu rhagnodi'n rheolaidd a lle mae 'na gyffuriau generig cyfatebol ar gael i weld pa arbedion y gellid eu sicrhau drwy wella rhagnodi generig.</p> <p>Cyfrifwyd y perfformiad ar sail y rhagnodi rhwng Mawrth 2013 a Mai 2013 gan addasu'r ffigurau ar gyfer blwyddyn. Wedyn seilir yr arbedion ar y gwahaniaeth rhwng pris y cyffur generig a'r cyffur brand ar gyfer y cyfnod hwnnw.</p>
Cyffuriau y nodwyd eu bod yn rhai llai addas i'w rhagnodi	Seilir yr arbedion ar leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, gan gydnabod y gallai fod angen ymdrech barhaus a rhaglen addysg i newid arferion rhagnodwyr unigol.
Basgedaid o gyffuriau nad yw NICE yn eu hargymell	Seilir yr arbedion ar leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, gan gydnabod y gallai fod angen ymdrech barhaus a rhaglen addysg i newid arferion rhagnodwyr unigol.
Rhagnodi gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd	Cyfrifwyd yr arbedion drwy ostwng y ganran o ragnodi gorchuddion gwrthficrobaidd a ddefnyddir mewn gofal sylfaenol i lefel y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.
Atchwanegiadau bwyd (Bwyd Llwy)	Cyfrifwyd yr arbedion drwy ostwng y gwariant cyfredol i lefel cost gyfartalog yr eitem yn y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.
Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol	Cyfrifwyd yr arbedion ar y sail bod byrddau iechyd yn perfformio yn chwarter gorau y practisau meddygon teulu.

---

## Crynodeb o'r arbedion posibl

<b>Maes</b>	<b>Arbedion</b>
Gwella rhagnodi generig	£692,000
Cyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi	£256,000
Basgedaid o gyffuriau nad yw NICE yn eu hargymell	£41,000
<b>Rheoli clwyfau ac atchwanegiadau bwyd</b>	
Gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd	£0
Atchwanegiadau bwyd	£125,000
<b>Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol</b>	
Gwella rhagnodi atalyddion ACE	£197,000
PPIs	£153,000
NSAIDs	£69,000
Statins rhad eu caffael	£509,000
Inswlin hir-effaith	£46,000
Rhagnodi opioidau	£197,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£2,285,000</b>

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata CASPA.Net*

## Atodiad 2

### Dadansoddiad cymharol o ragnodi ar sail penodau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn ôl bwrdd iechyd

Arddangosyn 1: Cyfanswm gwariant yn ôl penodau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain fesul 1,000 o Unedau Rhagnodi – Mehefin 2012 - Mai 2013

	Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Aneurin Bevan	Prifysgol Betsi Cadwaladr	Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cwm Taf	Hywel Dda	Addysgu Powys
System Gastroberfedd ol	£6,239	£6,712	£6,534	£6,211	£6,517	£6,137	£6,405
System Cardiofasgwlaidd	£14,683	£14,851	£13,940	£12,603	£15,876	£15,641	£14,674
System Resbiradol	£20,428	£21,314	£18,857	£16,601	£25,799	£19,268	£16,820
System Nerfol Ganolog	£26,476	£28,293	£25,539	£26,420	£29,648	£26,171	£25,394
Heintiau	£3,269	£3,261	£3,147	£3,500	£2,945	£3,213	£2,887
System Endocrin	£16,448	£17,201	£15,029	£15,803	£17,032	£16,564	£14,811
Anhwyldeirau Obstetrig, Gynaecolegol a'r Llwybr Wrinol	£5,297	£5,561	£5,406	£6,644	£6,371	£5,379	£5,354
Clefyd Malaena a Gwrthimiwnedd	£3,414	£2,798	£3,361	£2,809	£3,202	£4,451	£4,055
Maetheg a Gwaed	£7,757	£7,657	£7,887	£8,803	£9,049	£7,106	£7,565
Clefydau Cyhyrgerbydol a Chlefydau'r Cymalau	£2,938	£3,183	£2,637	£2,653	£2,875	£3,109	£2,938
Llygaid	£2,155	£1,783	£2,108	£2,004	£2,310	£2,385	£2,151


	Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Aneurin Bevan	Prifysgol Betsi Cadwaladr	Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cwm Taf	Hywel Dda	Addysgu Powys
Clustiau, Trwyn a'r Oroffarynys	£1,307	£1,225	£1,199	£1,433	£1,330	£986	£1,237
Croen	£4,117	£4,177	£4,109	£4,743	£4,230	£3,502	£3,630
Cynhyrchion a Brechlynnau Imiwnolegol	£1,377	£1,416	£1,391	£1,545	£1,375	£1,421	£1,544
Anesthesia	£117	£132	£117	£97	£91	£125	£127
